

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 2021
11 Ionawr 2021 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Nia Povey, Glyn Griffiths, Elin Jones, Dion Roberts, Elin Jones, Richard Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Ymddiheuriadau

Dafydd Watts, Llio Griffiths

4. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 7 Rhagfyr 2020

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Elin Jones

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Parheir i ddisgwyl fersiwn terfynol o Arolwg Anghenion Tai. Rhaid cael hwn yn derfynol cyn medru trefnu cyfarfod cyhoeddus.

Mae Cerys Thomas ar gael i fod yn hwylusydd, unrhyw ddiwrnod heblaw am ddydd lau tan tua chanol mis Chwefror

5.2 13 Garreg Frech

Mae'r Clerc wedi gwneud cwyn a danfon manylion at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Disgwylir ymateb gan yr Ombwdsmon.

5.3 Y Ganolfan

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at adran eiddo ac adran drethi Cyngor Gwynedd niferoedd o weithiau, yn gofyn i syrfëwr alw i wneud arolwg o'r Ganolfan ac yn holi am atebolrwydd y Cyngor Cymuned i dalu treth fusnes.

Penderfynwyd y byddai angen gwneud cwyn ffurfiol os na fyddai ymateb wedi ei dderbyn erbyn y cyfarfod nesaf.

5.4 Mynwent Tan Lan

Mae Richard Pearson wedi cytuno i dorri'r coed ash die-back am bris o £1850.

Cafwyd pris o £870 gan Hefin Pritchard i osod ffens ar hyd wal isaf y fynwent, a disgwylir pris gam Gwion Evans a Dylan Edwards.

5.5 Goryrru Llanfrothen

Mae Gan Bwyll wedi dweud y byddant yn gosod fan yn Llanfrothen ond does dim tystiolaeth eu bod wedi bod yn mesur cyflymder yn Llanfrothen. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn iddynt pryd y byddant yn dod i arolygu'r cyflymder yn Llanfrothen.

Mae Martin Williams o Gyngor Gwynedd wedi dweud y bydd yn edrych ar y ffordd o dro Morfa i Dŷ Mawr o ran diogelwch ffordd a gweld pa opsiynau sy'n bosibl, dros yr wythnosau nesaf.

5.6 Pont Afon Ceunant

Mae Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r bont ac wedi dod i'r casgliad fod y bont yn ddiogel. Search hynny, mae un trawst carreg wedi torri a symud ychydig. Fodd bynnag, cynnal y wal canllaw y mae yn hytrach na'r ffordd ac mae wedi bod felly ers peth amser. Yn ogystal, mae gwely'r afon wedi dyfnhau o flaen ceg y bont.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ychwanegu'r bont ar eu rhaglen waith l'w gwbljhau dors gyfnod yr haf ac yn cadw golwg ar y bont yn y cyfamser.

5.7 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Cytunwyd i drafod polisi cyflogaeth y Clerc yng nghyfarfod mis Ionawr.

5.8 Cyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw

Bu'r Cynghorydd Dafydd Watts a'r Cynghorydd Glyn Griffiths yn cyfarfod efo ymddiriedolwyr Brondanw cyn y Nadolig.

Mynegwyd pryder fod yr ymddiriedolwyr wedi gado gwaddol ariannol i'r Cyngor Cymuned yn sgil gwaith biomas Croesor, ond hyd yn hyn does dim addewid pendant ganddynt i wireddu'r addewid yma.

Mae hyn yn siomedig, oherwydd roedd darparu gwaddol ariannol yn rhan o'r amodau cynllunio.

Cytunwyd i drafod y mater yma ymhellach yng nghyfarfod mis Chwefror.

5.9 Tir Rhent yn Llanfrothen

Cysylltodd y Clerc efo Un Llais Cymru er mwyn cael arweiniad pellach ar y mater yma. Fedr Un Llais Cymru ddim rhoi Cyngor penodol, ac awgrymwyd cysylltu efo'r Gofrestrfa Dir er mwyn ymchwilio ymhellach.

Penderfynwyd trafod sut i weithredu ar y mater yma yng nghyfarfod mis Chwefror.

5.10 Aelodaeth ar Bwyllgor Rhanddeiliaid Trawsfynydd

Cytunodd y Cynghorydd Dion Roberts i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor Rhanddeiliaid Atomfa Trawsfynydd.

5.11 Croesffordd Wern

Mae Cyngor Gwynedd wedi gosod arwyddion diogelwch ar y ffordd ac wedi gado gwneud y sefyllfa yn ddiogel o fewn 24 awr, ond credir fod y broblem dal yn bodoli. Cytunodd y Cynghorydd Richard Jones i fynd i edrych ar y safle er mwyn gweld os ydy'r broblem yn parhau.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Rhagfyr 2020 - £214.20

TWE £53.60

6.2 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2018/19

Cymeradwyd Ffurflen Flynyddol 2018/19, a derbyn adroddiad yr archwiliwr allanol.

6.3 Cytuno ar braesept 2020/21

Trafodwyd y praesept ar gyfer 2021/22 ac fe gytunwyd y dylid codi'r praesept £1,000 i £9,300

Cytunwyd i wneud y taliadau uchod.

7. Gohebiaeth

7.1 Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd – cais am nawdd

Cytunwyd i roi £50 fel rhodd i Glwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, £50 i bapur bro'r Wylan a £150 i Ysgol y Garreg, Llanfrothen.

7.2 Twristiaeth a Chyflogaeth yng Nghymru

Derbyniwyd er gwybodaeth.

8. Ceisiadau Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1` Cynllun Llesiant a Chorfforaethol Parc Cenedlaethol Eryri 2021-2026

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ymgynghori ar Gynllun Llesiant Corfforaethol ac yn gofyn am sylwadau. Cytunwyd y gallai pawb ymateb fel unigolyn yn ôl yr angen.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – 1 Chwefror 2021
am 7:30 yr hwyr. Bydd y cyfarfod yma yn gyfarfod blynyddol
hefyd.**

